**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

# Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2008 (Papur 1B)

**Dyddiad:** 8 Gorffennaf 2008
**Amser:** 5.30-7.00
**Lleoliad:** 4B
**Enw'r awdur a rhif cyswllt:** Dianne Bevan est 8991

## Portffolios y Comisiynwyr

***Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu yn rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.***

**Pwrpas a chrynodeb o'r materion**
1. I arolygu portffolios presennol y Comisiynwyr a phenderfynu a oes angen gwneud unrhyw newidiadau.

**Argymhellion (gan gynnwys terfynau amser sydd â blaenoriaeth)**

2. Bod y Comisiwn yn ystyried eu portffolios yng ngoleuni blwyddyn gyntaf eu gweithredu, gan gadw eu natur drawsbynciol ond gan benderfynu ar ddyraniadau penodol i rannu'r llwyth gwaith yn fwy teg.

**Trafodaeth**

3. Ar 20 Mehefin 2007, mabwysiadodd y Comisiwn y dyraniadau portffolio canlynol:-

- **Y Llywydd** - Cyfrifoldeb arbennig am hyrwyddo ymgysylltiad democrataidd, arweinyddiaeth ragorol, datblygu pwerau deddfwriaethol y Cynulliad yn y dyfodol a chysylltiadau allanol.
- Elin Jones AC i ddechrau ac yna Chris Franks AC, **Comisiynydd ar gyfer Gwella'r Cynulliad** - Gwella gwasanaethau i Aelodau a dinasyddion; cynllunio strategol; gwerth am arian; ymwneud â rhanddeiliaid.
- William Graham AC, **Comisiynydd ar gyfer Adnoddau'r Cynulliad** – Rheoli asedau'r Cynulliad; pobl y Cynulliad (gan gynnwys cyflogeion, contractwyr, gwasanaethau a ddarperir i gefnogi staff cynorthwyol Aelodau'r Cynulliad); y gyllideb; cyflogau a lwfansau'r Aelodau; effeithiolrwydd a llywodraethu da.
- Peter Black AC, **Comisiynydd ar gyfer y Cynulliad a'r Dinesydd** – Ansawdd y craffu a'r broses ddeddfwriaethol; cyfathrebu allanol; TGCh; addysg dinasyddiaeth; cyfreithlondeb
- Lorraine Barrett AC, **Comisiynydd ar gyfer Cynulliad Cynaliadwy** - Cydraddoldeb; iaith; yr amgylchedd a niwtraliaeth carbon; caffael a rheoli'r ystâd mewn ffordd cynaliadwy.

4. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Comisiynwyr wedi magu perthynas waith gyda'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau yn eu meysydd portffolio. Ar wahân i'r sesiynau briffio rheolaidd, mae patrwm o rannu syniadau a dilyniant, ymgynghori a thrafodaethau wedi datblygu. Mae hyn wedi cynnwys herio'r ansawdd a'r ddarpariaeth mewn modd buddiol a chadarnhaol, ac wedi darparu llinell y gall Aelodau ei defnyddio i gyfleu eu safbwyntiau ehangach, er ein bod yn gweithio ar wneud hyn yn fwy systematig mewn rhai meysydd allweddol. Mae'r comisiynwyr yn ateb cwestiynau'r Cynulliad yn eu tro, a chymeradwyir yr atebion gan y Comisiynydd cyfrifol.

5. Efallai y byddai'n ddefnyddiol disgrifio rhai esiamplau o sut mae Comisiynwyr Portffolio unigol wedi datblygu eu gwaith. Nid yw hwn yn rhestr llawn o bell ffordd.

   - Mae gan Lorraine ddiddordeb personol cryf mewn sut y caiff y Senedd ei redeg ac mae'n rhoi cefnogaeth a chyngor i staff ynghylch rhai materion trafod anodd. Mae wedi rhoi cefnogaeth bersonol i gynlluniau cynaliadwy ac wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau staff yn y maes hwn, ac wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb yn ogystal â rhoi cyngor a gwneud sylwadau ar faterion cydraddoldeb.
   - Mae William yn ymwneud yn agos â'r dasg o reoli cyllid a llywodraethu drwy'r flwyddyn, a bydd yn cynorthwyo gyda materion

sensitif yn ymwneud â chymorth ariannol i Aelodau. Mae'n aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

- Mae Peter yn llywio cyflawni cynlluniau TGCh ac mae wedi helpu i sefydlu sgôp y rhaglen *i-change* a'r Strategaeth Cyfathrebu. Arweiniodd lansiad cynlluniau e-ddemocratiaeth y Cynulliad ac ymgynghorwyd ag ef ynghylch adnoddau ychwanegol i gefnogi craffu a deddfwriaeth.
- Ymunodd Chris â'r Comisiwn yn hwyrach, ond mae wedi cynorthwyo gyda datblygu'r arolwg ar gyfer Aelodau i wella gwasanaethau ac mae'n gwneud pwyntiau ar gyfer gwella yn rheolaidd. Byddwn yn ceisio ei gymorth i ddatblygu ein fframwaith risg a gwella newydd a'n dangosyddion perfformiad allweddol.

6. Mae gan y meysydd portffolio ymagwedd drawsbynciol a strategol, ond bu'n bosibl fel arfer i nodi sut mae gwasanaethau a materion yn cysylltu gyda phortffolios penodol. Mae natur y portffolios yn galluogi Comisiynwyr i weithio ar draws ystod o wasanaethau, yn hytrach na'u bod yn cael eu cyfyngu i feysydd penodol. Credwn fod y natur drawsbynciol yn helpu i leihau anhyblygrwydd y ffiniau rhwng gwasanaethau a byddem yn gweld eisiau'r llinell golwg pwysig hwn pe baem yn ei golli. Fodd bynnag, mae'n debyg nad yw llwythau gwaith dyddiol wedi cael eu rhannu'n deg.

7. Flwyddyn wedi mabwysiadu'r meysydd portffolio hyn, byddai'n addas ystyried a ydynt yn gweithio'n dda ac a ydynt yn gytbwys o ran cyfrifoldeb:-

   - Mae'n ymddangos bod lled rhai o'r portffolios yn fwy na lled rhai eraill. Yn arbennig, mae gan rôl y Comisiynydd ar Gyfer Adnoddau'r Cynulliad gyfrifoldeb eang, sy'n canolbwyntio ar adegau penodol o'r flwyddyn yn ystod cyfnod pwysig cylch y gyllideb. Mae rôl y Comisiynydd ar gyfer Cynaliadwyedd y Cynulliad yn aml yn galw am ymwneud dyddiol a gall olygu pwysau mawr o ran amser a gwybodaeth fanwl.
   - Gallai Comisiynydd arweiniol helpu gyda rhai materion sy'n parhau a meysydd gwaith ar gyfer y dyfodol (er enghraifft, o ran rhyddid gwybodaeth a materion cyswllt, un pwynt cyfeirio ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol, Comisiynydd i gysylltu gyda'r arolwg newydd ar gymorth i Aelodau, gwella'r Cynulliad dwyieithog).
   - Mae cyfathrebu yn gweu drwy bob portffolio i raddau, a dylid gwasgaru'r gwaith i wella ein cyfathrebu drwy bob portffolio. Gallwn barhau i gynnwys Comisiynwyr fel llefarwyr a llysgenhadon pan mae'r cyfle'n ymddangos  a chynnwys hyn yn ein cynlluniau.

- Beirniadwyd ein hymgynghori gydag Aelodau yn ddiweddar ac efallai bod hwn yn gyfle da i ganfod a yw'r pethau newydd yr ydym yn eu gwneud yn y maes hwn yn addas.
- Mae arwyddocâd tymor hir a strategol i waith y panel arolygu ar gymorth i Aelodau a bydd o ddiddordeb uniongyrchol i Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru. Un dewis fyddai ychwanegu'r cyfrifoldeb dros gysylltu gyda'r panel arolygu at bortffolio'r Llywydd.

8. Gofynnir i Gomisiynwyr arolygu cynnwys eu portffolios ac ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau.

**Materion Llywodraethu**

**Goblygiadau ariannol**

9. Does dim yn codi o'r papur hwn.

**Asesu Risg**

10. Gallai diffyg eglurdeb mewn meysydd portffolio arwain at fethu ag ymgynghori'n iawn. Gallai gormod o bwysau mewn maes portffolio olygu y rhoddir pwysau sylweddol ar Gomisiynydd unigol. Caiff y risgiau hyn eu lleihau drwy gyswllt a sesiynau briffio rheolaidd, i nodi lle y gallai bylchau fodoli, a thrwy arolygu'r portffolios yn rheolaidd i sicrhau y rhennir y cyfrifoldeb yn decach.

**Cydymffurfiaeth**

11. Mae Deddf 2006 yn gwneud y Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau gwasanaethau i ddarparu cymorth ar gyfer swyddogaethau'r Cynulliad.